Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Pysgodfeydd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **7 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**SO30C – Gosod OS yn Senedd y DU sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

Rheoliadau Pysgodfeydd (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

**Crynodeb o'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth sydd i'w cywiro gan Reoliadau 2019**

**Deddfwriaeth Sylfaenol**
Deddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967
Deddf Pysgodfeydd 1981
Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009

**Is-ddeddfwriaeth**
Rheoliadau Llongau Masnach (Cofrestru Llongau) 1993
Gorchymyn Pysgodfeydd Môr (Gogledd Iwerddon) 2002
Gorchymyn Cŵn Gleision (Gwahardd eu Pysgota) 2008
Rheoliadau Llyswennod (Cymru a Lloegr) 2009
Gorchymyn Pysgota Môr (Pysgota Anghyfreithlon ac Anrheoleiddiedig nas Hysbysir amdano) 2009
Rheoliadau Labelu Pysgod 2013
Rheoliadau Pysgota Môr (Pwyntiau ar gyfer Meistri Cychod Pysgota) 2014
Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi a Darpariaethau Amrywiol) 2015
Rheoliadau Grantiau ar gyfer y Diwydiannau Pysgota a Dyframaeth 2015
Rheoliadau Pysgota Môr (Gorfodi) 2018

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Ni chaiff unrhyw swyddogaethau deddfwriaethol eu trosglwyddo gan yr offeryn statudol hwn.

Mae'r offeryn hwn yn parchu'r setliad datganoli presennol ac nid yw'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol o ran Cymru (sy'n cynnwys y môr tiriogaethol allan i 12nm) ar gyfer rheoli pysgodfeydd a'r amgylchedd morol yn ddarostyngedig i faterion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn ogystal, mae gan

Weinidogion Cymru gymhwysedd gweithredol am reoli pysgodfeydd a'r amgylchedd morol, yn ddarostyngedig i faterion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gyfer Cymru, parth Cymru, a chychod pysgota o Gymru y tu hwnt i'r parth hwnnw.

**Diben y diwygiadau**

Mae'r OS hwn sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn darparu cywiriadau technegol i ddeddfwriaeth sylfaenol ddomestig ac is-ddeddfwriaeth ddomestig sy'n rhoi effaith i fesurau penodol yr UE sy'n rhan o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, mesurau rheoli morol a mesurau sy'n ymwneud â'r gofrestr o gychod pysgota Prydeinig. Bydd hyn yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau i weithredu'n effeithiol, a bod gan y DU ddull gorfodadwy o sicrhau cynaliadwyedd o ran rheoli pysgodfeydd, ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae'r offeryn hwn yn gysylltiedig â Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018.

Mae Rheoliadau 2019 a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gyda hwy, sy'n nodi effaith y diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.